**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2016.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â recordiad sain o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Ann Griffith (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeffrey M. Evans, John Griffith, K P Hughes, W T Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes a Nicola Roberts<br><br>Y Cynghorydd R.A. Dew – Deilydd Portffolio (Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Datblygu Economaidd). |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorydd Raymond Jones |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorydd Peter S. Rogers (Cais 7.2); Y Cynghorwyr Jim Evans, R. Meirion Jones a Alun Mummery (Cais 7.4). |

1.00 o'r gloch - 2.45 o'r gloch

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
| PENDERFYNIAD | **Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIADAU SAFLE** |
| PENDERFYNIAD | **Cyflwynwyd cofnodion yr ymweliadau â safleoedd cynllunio a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
| PENDERFYNIAD | **Roedd siaradwyr cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 7.2 a 7.4.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **6.1 203C310B/EIA/RE – Cais llawn ar gyfer adeiladu fferm arae solar 49.99MW ynghyd ag offer isadeiledd cysylltiedig a gwaith ategol ar dir ger Rhyd y Groes, Rhosgoch**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**6.2 23C280F – Cais llawn i godi sied amaethyddol a pharlwr godro ynghyd â phwll slyri yn Plas Llanfihangel, Capel Coch.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**6.3 34C681 - Cais amlinellol ar gyfer codi 8 annedd a 2 annedd fforddiadwy gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl ynghyd â chreu mynedfa newydd a gwaith cysylltiedig ar dir y tu cefn i Stad Tyn Coed, Llangefni.**<br><br>**PENDERFYNWYD y dylid cynnal ymweliad safle yn unol ag argymhelliad y swyddog a roddwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**6.4 36C338A - Cais llawn i godi annedd ynghyd â chodi modurdy ar wahân ar dir gyferbyn ag Ysgol Henblas, Llangristiolus.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**6.5 45C468 – Cais llawn i newid defnydd adeilad allanol yn annedd, creu mynedfa i gerbydau, gosod system trin carthffosiaeth ynghyd â chodi strwythur lliniaru ecoleg yn Bodrida Bach, Brynsiencyn.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **7.1 15C215C – Cais llawn i godi annedd ynghyd â gosod tanc septig ar dir ger Tyddyn Bwrtais, Llangadwaladr**<br><br>**PENDERFYNWYD cadarnhau penderfyniad blaenorol y Pwyllgor i gymeradwyo'r cais gyda'r amodau a nodir gan y Swyddogion.**<br><br>**7.2 15C30H/FR - Cais llawn i newid defnydd tir amaethyddol er mwyn ymestyn y maes carafannau presennol i leoli 14 o garafannau symudol ychwanegol ynghyd â gosod tanc septig ar dir ym Maes Carafannau a Gwersylla Fferm Pen y Bont. Malltraeth.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog gan yr ystyriwyd nad yw'r risg o lifogydd yn ddigonol i gyfiawnhau gwrthod y cais ac oherwydd y defnydd presennol a wneir o'r tir nid oedd yn cael ei ystyried y byddai cymeradwyo'r cais yn cael effaith andwyol sylweddol ychwanegol ar y SDdGA.**<br><br>***(Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig i'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad ar y rhesymau a roddwyd dros ganiatáu'r cais.)***<br><br>**7.3 25C242 - Cadw pwll ynghyd â gwaith draenio yn Nhyn Cae, Coedana, Llannerch-y-medd.**<br><br>**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais er fel y gall yr ymgeisydd i gyflwyno adroddiad hydroddaeareg.**<br><br>**7.4 39C561/FR/TR Cais llawn ar gyfer codi Canolfan Zorb ynghyd â chreu mynedfa i gerbydau a maes parcio ar dir ger The Lodge, Ffordd Caergybi,Porthaethwy.**<br><br>**PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog fel y nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| | **7.5 44C102A –Cais amlinellol ar gyfer codi annedd gyda'r holl materion wedi'u cadw'n ôl ar dir tu ôl i Hazelbank, Rhosybol.**<br><br>**PENDERFYNWYD cadarnhau penderfyniad blaenorol y Pwyllgor i gymeradwyo'r cais gyda'r amodau a nodir gan y Swyddogion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu hystyreid yn y cyfarfod hwn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu hystyreid yn y cyfarfod hwn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd unrhyw geisiadau o'r fath eu hystyreid yn y cyfarfod hwn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **11.1 23C339 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol yn ddwy annedd yn Nhyn Llidiart, Talwrn.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig.**<br><br>**11.2 48C197 Cais llawn i newid defnydd adeilad allanol yn annedd gan gynnwys balconi ynghyd â chreu gwelliannau i'r fynedfa bresennol ar dir gyferbyn a Phenclegir, Gwalchmai.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 19LPA1030/CC - Cais llawn i osod ystafell addysg symudol yn Ysgol Santes Fair, Ffordd Longford, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau a nodir yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | **Ni chafodd yr un mater arall ei ystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |